



CAFODD y rhai a fynychodd ddigwyddiad newydd yn y Rhyl brofi golygfeydd a synau'r môr.


Daeth yr arena ddigwyddiadau a Stryd Fawr y dref at ei gilydd i ddathlu hanes morol y Rhyl. Roedd adar haul anferth, RNLI y Rhyl, reid ar thema cychod a mwy i'w gweld fel rhan o'r digwyddiad diwrnod cyfan hwn.

Roedd Seafest – ail ddigwyddiad y tymor gan Gyngor Tref y Rhyl – hefyd yn dathlu talent a mudiadau lleol gyda'r artist enwog Ryan Hall, y gwamalwr a'r dewin Steve Ashcroft, a Chadetiaid Môr y Rhyl yn cymryd rhan.

Roedd talent lleol hefyd, yn perfformio gyda Chôr Cymunedol Ghostbuskers. Roedd peintio wynebau a chanu caneuon y môr yn coroni'r cyfan.

Y digwyddiad hwn – yn arena ddigwyddiadau'r Rhyl ac ar y Stryd Fawr – oedd y cyntaf i'w fynychu gan Faer newydd y Rhyl, y Cynghorydd Alan James.

Meddai: "Roedd Seafest yn dod â rywbeth newydd a bywiog i'r Rhyl. Fel tref glan y môr, roedd yn wych medru dathlu ein lleoliad, gweithio gyda mudiadau megis RNLI y Rhyl a chydabod ein hanes morol. Roedd Cadetiaid Môr y Rhyl yno i siarad am HMS Rhyl – cwch y Llynges Frenhinol a gomisiynwyd ym 1960 ac a wasanaethodd yn y Dwyrain Pell, Môr y Canoldir a Dwyrain Affrica. Hefyd gyda ni roedd artistiaid talentog a mudiadau lleol.



“Cynigiodd y reid cychod, o’r enw Lifeboat - ac yn ôl pob son y reid arafaf ar y ddaear - rywbeth gwahanol yn y digwyddiad ac roedd yn hwyl mawr gweld pobl yn dringo i’r gwelyau crog a throelli’n araf. Gallai ymwelwyr adael proffwydoliaethau at y dyfodol, gan rannu gyda ni eu gobeithion a’u dyheadau ar gyfer y Rhyl – y cwbl yn adborth gwerthfawr i’r cyngor tref wrth i ni symud trwy flwyddyn newydd. Mae Seafest wedi bod yn ddigwyddiad gwych i’r dref, ac rydym yn gobeithio ei ailadrodd yn 2018.”

Bydd hanes yn chwarae rhan bwysig yn y gyfres o ddigwyddiadau i’w trefnu gan y cyngor tref eleni gyda’r digwyddiad nesaf yn gweld y stryd fawr yn cael ei thrawsnewid yn Beatles Street ar ddydd Sadwrn 15 Gorffennaf. Gyda band teyrnged y Rhyl, The Cavernites, bydd y digwyddiad yn dathlu’r diwrnod pan chwaraeodd y Beatles yn y Rhyl a’u cysylltiadau gyda Gogledd Cymru. Mae’r cyngor tref hefyd yn cefnogi Sioe Awyr y Rhyl eleni, i’w chynnal ym mis Awst.

I gael gwybod am bopeth sy’n digwydd yn y Rhyl, ewch i www.rhyltowncouncil.org.uk

Cap: Maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James a’r faeres, y Cynghorydd Win Mullen-James yn mynd ar reid y Lifeboat yn Seafest y Rhyl.

Diwedd

29 Mai 2017



